**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 20 Ionawr, 2020**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 23 Ionawr, 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 30 Ionawr, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 31 Ionawr, 2020.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi (Cadeirydd), R.Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorydd Aled Morris Jones

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Ieuan Williams

(10:00 y. b. tan 10:50 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni: Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig i "adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle arall i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir" ac awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni : Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig i "gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i** |

| | |
|---|---|
| | **gymryd disgyblion Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn" ac awdurdodi Swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |